



Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: rhestr wirio (CC32a)

Rhestr wirio a argymhellir ar gyfer archwilwyr

Nid yw'r rhestr wirio hon yn addas ar gyfer archwilio cyfrifon grŵp gwirfoddol.

1. Rhestr wirio hunanasesu

Bwriedir i'r cwestiynau yn y rhestr wirio hon helpu'r archwiliwr i ymgymryd â'i archwiliad annibynnol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a'r argymhellion arfer da a nodir yng nghanllaw'r Comisiwn ar Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: Cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr (CC32)

Argymhellir bod yr archwiliwr yn defnyddio'r rhestr wirio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddiadau ar gyfer archwiliad annibynnol. Ni fydd pob un o'r gwiriadau a restrir yn gymwys yn achos pob archwiliad annibynnol ac felly nid yw'r rhestr wirio yn cymryd lle barn yr archwiliwr ei hun ynghylch yr hyn sy'n angenrheidiol.

Gall ysgogiad 'cam wedi'i gwblhau' ysgogi ateb 'ie' neu 'na'. Nid yw ateb 'na' bob amser yn arwydd bod problem oherwydd mae'n bosib nad oedd y cam yn gymwys neu'n angenrheidiol i'r archwiliad dan sylw ac os felly gallai'r geiriau 'ddim yn gymwys' neu 'ddim yn angenrheidiol' gael eu nodi yn lle cyfeiriad papur gweithio.

Gall rhai atebion fod yn 'na' oherwydd nid oedd modd cael y dystiolaeth neu'r wybodaeth a oedd ei hangen a bydd angen ystyried hyn pan fydd yr archwiliwr yn paratoi ei adroddiad. Argymhellir bod yr holl gamau ar gyfer pob Cyfarwyddyd yn cael eu cwblhau gan ychwanegu cyfeiriad papur gweithio.

Mae'n bosib y bydd yr archwiliwr yn cwblhau'r rhestr wirio wrth iddo fynd trwy'r archwiliad neu fel gwiriad cwblhau ar y diwedd wrth iddo ddod â'r archwiliad i ben a pharatoi ei adroddiad. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddefnyddio'r rhestr wirio hon a gall archwilwyr ddefnyddio eu rhestr wirio eu hunain neu fabwysiadu dull arall.

Os yw'r rhestr wirio yn cael ei chwblhau argymhellir ei bod yn ffurfio rhan o'r cofnod ffurfiol o'i archwiliad annibynnol a wnaed a'i fod yn cael ei gadw yn ffeil papurau gweithio'r archwiliwr.

2. Rhestr wirio

Y Cyfarwyddiadau a'r dogfennau	Cam wedi'i gwblhau?	Cyfeiriad papur gweithio
Cyfarwyddyd 1: Gwirio a yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol		
Gwirio trothwy archwilio'r elusen sy'n gymwys i'r cyfrifon sydd i'w hadolygu		
Gwirio nad yw archwiliad ariannol yn ofynnol am unrhyw reswm arall		
Cadarnhau bod yr elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol		
Cadarnhau swm incwm yr elusen i'r ffigur a ddangosir yn y cyfrifon (gan gynnwys unrhyw ganghennau) a chadarnhau bod incwm ac asedau o dan y trothwy archwiliad ariannol neu, os yw'n gymwys, cael copi o lythyr gan y Comisiwn yn cymeradwyo goddefeb archwiliad ariannol		
Os oes gan yr elusen un neu ragor o is-gwmnïau, cadarnhau nad yw cyfrifon grŵp yn ofynnol yn ôl y gyfraith		
Os yw'n gwmni elusennol, gwirio bod y datganiad esemptiad archwiliad ariannol wedi cael ei wneud		
Os yw'n gymwys, ailwirio'r cyfrifiad trothwy yn ystod yr archwiliad		
Os yw incwm yr elusen yn fwy na £250,000, cadarnhau bod yr archwiliwr yn aelod o un o'r cyrff rhestredig		
Os yw'n gymwys, rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr nad yw'r elusen yn gymwys i gael archwiliad annibynnol		
Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau wedi cael eu paratoi, gwirio bod incwm gros yr elusen yn llai na £250,000 ac nid yw'n gwmni		
Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau wedi cael eu paratoi, gwirio nad oes unrhyw ofyniad i baratoi cyfrifon croniadau yn nogfen lywodraethol yr elusen neu am unrhyw reswm arall		
Os yw'n gymwys, rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr nad yw'r elusen yn gymwys i baratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau		
Cyfarwyddyd 2: Gwirio am unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n atal yr archwiliwr rhag cynnal ei archwiliad annibynnol		
Cadarnhau nad oes unrhyw berthnasoedd personol agos â'r ymddiriedolwyr sy'n cyfaddawdu annibyniaeth		
Cadarnhau nad oes gennyh chi unrhyw ymwneud yng ngweinyddiad yr elusen o ddydd i ddydd		
Os ydych yn darparu gwasanaethau eraill i'r elusen, cadarnhau bod yr holl feini prawf yng Nghyfarwyddyd 2 sy'n angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth wedi'u bodloni		

Y Cyfarwyddiadau a'r dogfennau	Cam wedi'i gwblhau?	Cyfeiriad papur gweithio
Nodi nad oes unrhyw amgylchiadau ym marn yr archwiliwr a fyddai'n rhesymol arwain at y canfyddiad nad yw'r archwiliwr yn annibynnol		
Ystyried a ydych yn ddigon medrus i ymgymryd â'r archwiliad ac, os oes angen, cadarnhau aelodaeth o gorff rhestredig		
Os yw'n gymwys, rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr nad ydych yn gymwys i ymgymryd â'r archwiliad annibynnol		
Cyfarwyddyd 3: Cofnodi eich archwiliad annibynnol		
Ffeilio papurau gweithio wedi'u paratoi i ddogfennau'r gwaith a wnaed (gweler y Cyfarwyddyd ar gyfer canllawiau ar bapurau gweithio allweddol)		
Tystiolaeth o benodiad ar ffeil		
Os cafodd ei gyhoeddi, llythyr ymrwymiad wedi'i arwyddo gan yr ymddiriedolwyr ar ffeil		
Dogfennu bod y camau sy'n ofynnol gan Gyfarwyddyd 1 wedi'u cwblhau		
Dogfennu bod y camau sy'n ofynnol gan Gyfarwyddyd 2 wedi'u cwblhau		
Adolygiad dadansoddol wedi'i ddogfennu		
Meysydd o bryder wedi'u canfod a'u nodi os cawsant eu datrys neu beidio ac yn arwyddocaol ac wedi'u cynnwys yn adroddiad yr archwiliwr		
Gweithdrefnau dilysu a gwarantu wedi'u cwblhau ac unrhyw wiriadau wedi'u gwneud ar ffeil		
Copi o gyfrifon cymeradwy ar ffeil		
Copi o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr ar ffeil		
Copïau o wybodaeth y dibynnir arni fel rhan o'r archwiliad ar ffeil		
Os yw'n gymwys, copïau o'r sicrwydd ysgrifenedig a roddir		
Cofnodi'r casgliadau a wnaed fel canlyniad yr archwiliad annibynnol sy'n ategu adroddiad yr archwiliwr ar ffeil		
Cofnodi unrhyw faterion o arwyddocâd perthnasol y mae'n rhaid llunio adroddiad amdanynt yn uniongyrchol i'r Comisiwn		
Cofnodi p'un ai i arfer disgresiwn ac adrodd materion perthnasol yn uniongyrchol i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 4: Cynllunio eich archwiliad annibynnol		
Cael dealltwriaeth o gyfansoddiad, amcanion, strwythur sefydliadol, y cronfeydd a reolir, gweithgareddau a chofnodion a systemau cyfrifyddu'r elusen		
Cynllunio gweithdrefnau archwilio penodol sy'n briodol i amgylchiadau'r elusen		
Adolygu a gafodd unrhyw feysydd i'w gwella eu nodi ar gyfer yr ymddiriedolwyr yn adroddiad archwiliwr annibynnol y flwyddyn flaenorol (neu'r adroddiad archwiliad ariannol a llythyr rheoli) ac edrych i weld a yw unrhyw gamau wedi cael eu cymryd		

Y Cyfarwyddiadau a'r dogfennau	Cam wedi'i gwblhau?	Cyfeiriad papur gweithio
Ystyried y risgiau ariannol a nodwyd ac, os yw cyfrifon croniadau wedi'u paratoi, ystyried a oes tystiolaeth gan yr ymddiriedolwyr i ddangos bod yr elusen yn fusnes byw		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 5: Gwirio bod cofnodion cyfrifyddu yn cael eu cadw i'r safon ofynnol		
Gwirio bod y cofnodion cyfrifyddu sydd wedi cael eu cadw yn gyflawn ac ystyried a ydynt wedi cael eu cadw i'r safon ofynnol		
Gofyn i'r ymddiriedolwyr ynghylch sut y maent yn sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu yn gyflawn		
Os yw cywiriadau yn cael eu gwneud neu os yw cofnodion yn cael eu creu yn ystod yr archwiliad, mae cymeradwyaeth yr ymddiriedolwyr ar gyfer y rhain wedi cael ei geisio		
Gofyn i'r ymddiriedolwyr a ydynt wedi cynnal adolygiad o reolaethau ariannol mewnol yr elusen yn y flwyddyn yr adroddir arni		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ac ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 6: Gwirio bod y cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu		
Cymharu'r cyfrifon â'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol		
Gwirio rhai cofnodion o'r rhestr o drafodion incwm a gwariant i warantu anfonebau, cyfriflenni a derbyniadau o'r fath		
Os yw'n gymwys, cadarnhau bod yr ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod cronfeydd cyfyngedig neu gronfeydd gwaddol yn cael eu hadrodd yn gywir yn y cyfrifon		
Os oedd gwiriadau ychwanegol yn angenrheidiol, y dystiolaeth wedi'i chanfod sy'n dangos bod y cofnod cyfrifyddu yn gyflawn, roedd y daleb yn bresennol, a'r ddau wedi'u hategu gan y cofnod yn y cyfrifon		
Cyfarwyddyd 7: Os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau ac mae un neu ragor o drafodion cysylltiedig â pharti wedi digwydd, mae'n rhaid i'r archwiliwr wirio a chawsant eu datgelu'n briodol yn y nodiadau ar y cyfrifon		
Gwirio bod y datgeliadau sy'n ofynnol gan y SORP wedi cael eu gwneud ac yn gyflawn		
Ystyried a oes unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ac adrodd i'r Comisiwn		
Os cafodd cyfrifon derbyniadau a thaliadau eu paratoi ac roedd nodyn trafodiad parti cysylltiedig wedi'i ddarparu, gwirio'r nodyn ar gyfer unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr		

Y Cyfarwyddiadau a'r dogfennau	Cam wedi'i gwblhau?	Cyfeiriad papur gweithio
Cyfarwyddyd 8: Gwirio rhesymoldeb yr amcangyfrifon a barnau arwyddocaol a'r polisiau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth gyfrifyddu ar gyfer y mathau o gronfa a ddelir ac wrth baratoi'r cyfrifon		
Gwirio gyda'r ymddiriedolwyr bod cronfeydd ar wahân yr elusen wedi cael eu cyfrif amdanynt yn gywir a'u hadrodd yn gywir yn y cyfrifon.		
Gwirio a yw unrhyw amcangyfrifon neu farnau perthnasol a wnaed wrth baratoi'r cyfrifon yn rhesymol		
Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwirio bod y polisiau cyfrifyddu a fabwysiadir yn cyd-fynd â'r SORP ac yn briodol i weithgareddau'r elusen		
Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwirio bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes byw		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ac ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 9: Rhaid i'r archwiliwr wirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi ystyried amgylchiadau ariannol yr elusen ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac, os yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau, gwirio a yw'r ymddiriedolwyr wedi gwneud asesiad o sefyllfa'r elusen fel busnes byw wrth gymeradwyo'r cyfrifon		
Gofyn i'r ymddiriedolwyr a ydynt yn disgwyl i'r elusen allu talu unrhyw anfonebau, biliau ac ymrwymadau sy'n aros fel a phryd y byddant yn ddyledus		
Gofyn i'r ymddiriedolwyr ynghylch y polisi cronfeydd wrth gefn a digonolrwydd lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir		
Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwirio bod yr ymddiriedolwyr wedi gwneud asesiad o fusnes byw a bod eu hasesiad yn rhesymol yn wyneb yr wybodaeth sydd ar gael		
Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwirio bod datgeliadau'r SORP ynghylch busnes byw wedi cael eu gwneud		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 10: Gwirio ffurf a chynnwys y cyfrifon		
Os yw cyfrifon derbyniadau a thaliadau wedi cael eu paratoi, gwirio ei bod hi'n gyfreithlon i'r elusen baratoi cyfrifon o'r fath, bod yr holl ddatganiadau cyfrifyddu yn bresennol a bod cronfeydd yr elusen wedi'u nodi'n gywir		
Os yw cyfrifon croniadau yn cael eu paratoi, gwirio eu bod nhw'n cydymffurfio â'r SORP a'r safon gyfrifyddu gymwys		

Y Cyfarwyddiadau a'r dogfennau	Cam wedi'i gwblhau?	Cyfeiriad papur gweithio
Os yw'r elusen yn gwnni, gwirio bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â gofynion y gyfraith cwmnïau cymwys		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ac ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 11: Nodi eitemau o'r adolygiad dadansoddol o'r cyfrifon y mae angen eu dilyn i fyny i gael esboniad neu dystiolaeth bellach		
Cynnal adolygiad dadansoddol		
Yn dilyn yr adolygiad dadansoddol, dewis eitemau perthnasol yn y cyfrifol ar gyfer esboniad pellach neu dystiolaeth ategol		
Os oes posibilrwydd bod y cyfrifon wedi cael eu camddatgan yn sylweddol, cynnal gwiriadau ychwanegol ac mae'r archwiliwr yn fodlon bod yr eitem(au) a nodwyd wedi'u hesbonio'n foddhaol a'u cynnwys yn gywir yn y cyfrifon		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ac ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 12: Cwblhau adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr gyda'r cyfrifon		
Gwirio bod unrhyw ffigur ar gyfer cronfeydd wrth gefn a ddyfynnir yn adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr heb fod yn sylweddol anghyson â'r cyfrifon		
Cymharu adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr â'r cyfrifon ar gyfer unrhyw anghysondeb perthnasol		
Nodi unrhyw oblygiadau ar gyfer adroddiad yr archwiliwr ac ar gyfer adrodd ar wahân i'r Comisiwn		
Cyfarwyddyd 13: Ysgrifennu ac arwyddo adroddiad yr archwiliad annibynnol		
Adolygu'r casgliadau o'r archwiliad annibynnol		
Ystyried a yw'r archwiliad wedi nodi mater o bryder y dylid ei adrodd yn adroddiad yr archwiliwr		
Gwirio bod adroddiad yr archwiliwr yn cwmpasu'r holl faterion sy'n ofynnol		
Os yw'n dibynnu ar waith eraill wrth ymgymryd â'r archwiliad annibynnol, mae'r archwiliwr yn hollol fodlon â'i waith a bod y gwaith wedi cael ei ddogfennu'n gyflawn		
Arwyddo a dyddio adroddiad yr archwiliwr		
Adrodd materion o arwyddocâd perthnasol yn uniongyrchol i'r Comisiwn		
Arfer disgrisiwn ac adrodd materion perthnasol yn uniongyrchol i'r Comisiwn		